

OpenDoor

Rhifyn 17

Y cylchgrawn ar gyfer cefnogwyr a chyfeillion Y Brifysgol Agored

DIOLCH

RYDYCH WEDI AGOR Y DYFODOL



The Open
University
Y Brifysgol
Agored

WALES CYMRU

Y TU MEWN I'CH RHIFYN OPEN DOOR

- 4** Cronfa Dyfodol Agored
Mae gwaith dysgu sy'n newid bywydau o fewn cyrraedd – diolch i deulu'r Brifysgol Agored
- 6** Cefnogi Dysgwyr ym mhob man
Dysgwch pam mae miliynau wedi darganfod OpenLearn ers i'r cyfyngiadau symud ddechrau
- 7** Dyfodol Dysgu
Tiwtoriaid holograffig a gwersi amlieithog – rhagfynegiad ar astudio yn 2070
- 8** Ymateb i'r coronafeirws
Sut mae'r Brifysgol Agored yn datblygu atebion i rai o'r materion mwyaf difrifol
- 10** Pwysigrwydd gweirgloddiau gorlifdiroedd
Dysgwch pam mae gweirgloddiau cymaint yn fwy na dim ond caeau o flodau
- 11** Y Newyddion yn Gryno
Cipolwg cyflym ar y prosiectau diweddaraf sy'n newid bywydau
- 12** Cefnogi addysg yn Affrica Is-law'r Sahara
Sut mae teulu'r Brifysgol Agored yn helpu i wella newidiadau bywyd merched wedi'u hymleiddio
- 14** Plannu hedyn sy'n newid bywydau ar gyfer y dyfodol
Etifeddiaeth rhoddion a sut y gallwch ysbrydoli cenedlaethau i ddod
- 15** Dathlu ein nyrsys
Hyfforddi'r genhedlaeth nesaf o weithwyr gofal iechyd proffesiynol hynod fedrus

Drwy'r cylchgrawn edrychwch am y bathodynau isod i ddarganfod sut mae cefnogaeth rhoddwyr wedi helpu i agor y dyfodol



DIOLCH AM AGOR Y DYFODOL

Croeso i'r rhifyn diweddaraf o Open Door. Pan fyddwn yn cydweithio fel cymuned y Brifysgol Agored, rwyf wir yn credu nad oes unrhyw beth na allwn ei gyflawni. Mae eich caredigrwydd parhaus a'r ffordd y daethoch ynghyd i gefnogi eich gilydd – yn enwedig yn ystod ansicrwydd y ychydig fisoedd diwethaf – bob amser yn synnu ac yn ysbrydoli.

Gwneud y Dyfodol yn agored, gyda'n gilydd

Yn 2015, lansiodd y Brifysgol ymgyrch codi arian Agor y Dyfodol gyda'r nod o godi £50 miliwn er mwyn i ni allu rhannu'r rhodd o addysg â'r rhai sydd ei hangen. Roedd yr ymgyrch yn canolbwyntio ar bedair prif faes: Agor CYFLEOEDD, Agor MEDDYLIAU, Agor FFYRDD O FEDDWL ac yn olaf, Agor BYWYDAU.

Roedd yn darged uchelgeisiol, ac eto diolch i'ch cefnogaeth, rwyf yn falch o rannu pan ddaeth yr ymgyrch i ben ym mis Gorffennaf 2020, roeddem wedi rhagori ar y targed hwn a chodi cyfanswm o £60 miliwn. Mae hyn wir yn llwyddiant anhygoel ac ni fyddai wedi bod yn bosibl hebdoch chi – felly diolch i bawb a wnaeth gyfraniad ac a gefnogodd yr ymgyrch.

Er ein bod wedi cyrraedd carreg filltir codi arian gwych – gwyddom fod cymaint mwy o bobl y gallwn eu helpu gyda'n gilydd.

Yn y rhifyn hwn rwy'n falch o gyflwyno'r Gronfa Dyfodol Agored, a fydd yn parhau etifeddiaeth yr ymgyrch ac yn gwneud gwahaniaeth i'r rhai sydd ei angen fwyaf. Gallwch ddarllen mwy ar dudalen 4.

Rwy'n gobeithio y byddwch yn teimlo'n falch o fod yn rhan o gymuned mor arbennig ac yn mwynhau gweld cymaint o wahaniaeth rydych yn parhau i'w wneud.

Bydd eich haelioni parhaus yn ein galluogi i barhau i oresgyn y rhwystrau i addysg a dilyn ymchwil flaenllaw a fydd yn newid bywydau cymaint o bobl am genedlaethau i ddod.

Diolch o galon i chi am eich cefnogaeth, rydym wir yn ei gwerthfawrogi.

Karen Hart

Karen Hart
Dirprwy Gyfarwyddwr
Datblygiad: Ymgysylltu
â Chyn-fyfyrrwyr



GYDA'N GILYDD RYDYM YN AGOR Y DYFODOL: MAE £60 MILIWN WEDI CAEL EI GODI SY'N ARBENNIG - DIOLCH

CYFLEOEDD



Mae ysgoloriaethau arloesol yn cefnogi'r rhai sydd eu hangen fwyaf, gan agor y dyfodol fel na chaiff brwdfrydedd a photensial eu gwastraffu. Gyda'n gilydd, gallwn agor y dyfodol i fwy o bobl a newid bywydau mewn ffordd gadarnhaol, un myfyriwr ar y tro.

MEDDYLIAU



Credwn y dylai addysg fod ar agor i bob un ohonom, bob amser. Gyda'ch cefnogaeth chi, mae ein technoleg arloesol yn datgelu pŵer posibiliadau.

Mae cefnogaeth ddyngarol wedi gwneud gwaith dysgu am ddim yn hygyrch i deuluoedd, myfyrrwyr ac addysgwyr.



RYDYCH WEDI AGOR Y DYFODOL

MEDDWL



O Brosiect Deep Blue i'n Labordy Rhyngweithio Cyfrifiadurol i Anifeiliaid, mae ein gwaith ymchwil yn parhau i wthio ffiniau yr hyn sy'n bosibl ac yn sail i'r gwaith addysgu rydym yn ei ddarparu i'n myfyrrwyr a'n dysgwyr o amgylch y byd.

BYWYDAU



Mae teulu'r Brifysgol Agored yn parhau â'n gwaith datblygu rhyngwladol i gefnogi miliynau o athrawon a gweithwyr gofal iechyd o amgylch y byd, fel y gall disgyblion gael y dechrau gorau mewn bywyd a chleifion gael y gofal gorau.



DARLLENWCH FWY AM Y FFFORDD Y MAE EICH CEFNOGAETH YN GWNEUD GWAHANIAETH www.giving.open.ac.uk

AGOR Y DYFODOL, NEWID BYWYDAU

Gwnaeth dros 7,000 roi rhodd ym mlwyddyn ein pen-blwydd yn 50 i ysgoloriaethau a gwnaethant dderbyn tarian ar y Goeden Ddysgu Odidog.



Trawsnewid Bywydau: Y Gronfa Ysgoloriaethau i Ofalwyr

> **Lansiwyd: 2019**
> **50 o Ysgoloriaethau hyd yma**

Gall bywyd fod yn hynod heriol i ofalwyr di-dâl ar y gorau. Yn dilyn y pandemig, mae wedi bod hyd yn oed yn fwy anodd i'r rhai sy'n darparu gofal i anwyliaid. Rydym yn ymrwymedig i gefnogi gofalwyr o bob oed i sicrhau eu bod yn cael y cymorth a'r cyfleoedd y byddent yn colli allan arnynt fel arall.

Yn 2019, gwnaethom gynnig 50 o ysgoloriaethau i ofalwyr yn y DU a oedd am ddilyn cymhwyster. Roedd y flwyddyn gyntaf yn boblogaidd iawn gyda rwy o ymgeiswyr nag yr oeddem yn gallu cynnig lleoedd iddynt a disgwylir i'r myfyrwyr cyntaf ddechrau astudio yn y flwyddyn academaidd nesaf, 2020/21. Edrychwn ymlaen at roi'r newyddion diweddaraf i chi am eu cynnydd.

Sut gwnaeth y Brifysgol Agored wahaniaeth i Karen

Ni wnaeth bod yr unig ofalwr ar gyfer ei merch anabl rwystro Karen rhag cofrestru ar gyfer gradd Hanes yn 42 oed.

“Doeddwn i ddim yn gallu mynd i brifysgol draddodiadol, am nad oedd unrhyw un arall i edrych ar ôl fy mhiant a byddai'r ffioedd uwch wedi ei gwneud yn heriol yn ariannol. Roedd fy merch Michelle yn hollol ddiabynnol arnaf am bopeth; ond gyda'r Brifysgol Agored roeddwn i'n gallu astudio gartref ac yn hyblyg, gan fod yno i Michelle bob amser. Oeddwn, roeddwn i'n flinedig, ac roedd yn gofyn am ymdrech feddyliol fawr, ond roedd fy astudiaethau yn rhoi seibiant i mi o fy nghyfrifoldebau gofalu a sbarc a brwdfrydedd newydd a oedd yn gwau drwy bopeth arall roeddwn yn ei wneud.”

DYSGWCH FWY AM Y GRONFA YSGOLORIAETHAU I OFALWYR

alumni.open.ac.uk/campaigns/the-carers-scholarships-fund

Sut mae eich cefnogaeth yn rhoi'r ail gyfle maent yn ei haeddu i gyn-filwyr: Y Gronfa Ysgoloriaethau i Gyn-filwyr Anabl

> **Lansiwyd: 2018**
> **155 o Ysgoloriaethau hyd yma**

Rydym yn falch o roi gwybod i chi y bydd 50 yn fwy o fyfyrwyr yn astudio gyda'n ni'n fuan drwy'r Gronfa Ysgoloriaethau i Gyn-filwyr Anabl – diolch i'ch cefnogaeth barhaus.

Mae'r Gronfa yn cynnig cyfle mewn bywyd i'r rhai a gafodd eu hanafu wrth wasanaethu neu am eu bod wedi gwasanaethu wrth iddynt drosglwyddo i fywyd sifilaid, gydag addysg Y Brifysgol Agored am ddim a chefnogaeth anabled a gyrfaedd cofleidol. Hyd yma, mae teulu'r Brifysgol Agored wedi dod at ei gilydd i godi arian ar gyfer 155 o ysgoloriaethau fel y gall cyn-filwyr anabl ddilyn gyrfaedd boddhaol y tu allan i'r lluoedd arfog. Diolch yn fawr, fel bob amser, am eich cefnogaeth barhaus wrth greu effaith mor gadarnhaol ar gymaint o fywydau.



O'r lluoedd i'r llys

Pan gafodd Kate Moth (*yn y llun uchod*) ei rhyddhau o'r Fyddin yn 2016 am resymau meddygol, dechreuodd amau ei hunan-werth ac nid oedd unrhyw syniad ganddi beth y dylai ei wneud nesaf. Ar ôl ychydig flynyddoedd, mae Kate bellach yn astudio'r Gyfraith drwy'r Gronfa ac mae'n dweud bod cael nod cadarnhaol i weithio tuag ato yn gwneud gwahaniaeth mawr.

“Roeddwn yno fel unigolyn a oedd yn helpu pobl eraill, nid yr unigolyn yr oedd angen help arni. Nawr rwy'n gweithio tuag at rôl yn y sector cyfreithiol, lle y gallaf roi help i'r cymunedau milwrol sy'n gwasanaethu a chymunedau cyn-filwyr.”

HELP US TO CHANGE MORE LIVES THROUGH A SCHOLARSHIP
alumni.open.ac.uk/campaigns/veterans

Y Gronfa: wedi'i chreu gennych chi a'n partneriaid

Roedd lansio'r Gronfa ond yn bosibl drwy gefnogaeth barhaus anhygoel teulu'r Brifysgol Agored a nifer o sefydliadau. Diolch arbennig i:

- BAE Systems plc am ei gefnogaeth barhaus dros y tair blynedd ddiwethaf yn cefnogi 24 o fyfyrwyr, ond hefyd drwy gynnig mentora a lleoliadau gwaith a fydd yn helpu cyn-filwyr i lunio llwybr gyrfa newydd.
- ABF The Soldiers' Charity am ei hymrwymiad i gefnogi 10 o fyfyrwyr sy'n gyn-filwyr a'r swyddogaeth cefnogaeth myfyrwyr ehangach.
- Mae Boeing wedi cefnogi'r cynllun dros ddwy flynedd, gan gynnig ei brofiad o weithio gydag elusennau milwrol a chyflogi cyn-filwyr.
- Mae Amey plc a Leidos UK hefyd wedi rhoi eu cefnogaeth ynghyd â'r:

Canghellor gan ddefnyddio cronfeydd Cyfradd Gwerthu Rhwng Banciau Llundain (LIBOR), Ymddiriedolaeth Elusennol Constance Travis, Syr Christopher Coville KCB, Ymddiriedolaeth Elusennol Englefield, Lara Cournoyer, Ymddiriedolaeth Elusennol Simon Gibson, Elusen The Inman, Y Gymdeithas 'Lest We Forget', Ymddiriedolaeth Elusennol PF, Ymddiriedolaeth Roehampton y Frenhines Mary, Ymddiriedolaeth Elusennol Teulu Samuel Storey, Ymddiriedolaeth Elusennol Thales, Ymddiriedolaeth Elusennol Trelux, Sefydliad Utley, Sefydliad y Cyn-Filwyr, Ymddiriedolaeth Wakeham, William Allen Young Charitable Trust, Ymddiriedolaeth Elusennol The Worshipful Company of World Traders a bron i 4,000 o gyn-fyfyrwyr, cefnogwyr a chyfeillion Y Brifysgol Agored.

Bwrsariau newydd ar gyfer Myfyrwyr Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig

Mae'r Brifysgol Agored yn falch o gyhoeddi ei bod wedi lansio 50 o Fwrsariau Dyfodol Agored yn ddiweddar i gefnogi myfyrwyr newydd sy'n dod o gefndiroedd Duon, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig (BAME) eraill. Roedd hanner cant o fwrsariau o £1,000 ar gael ar gyfer y flwyddyn academaidd 2020/21, y gellir eu defnyddio tuag at gostau astudio neu gostau byw eraill.

Roedd hyn ond yn bosibl oherwydd haelioni Mr Howard a Mrs Elizabeth Brown BA. Mae gan Elizabeth, sy'n gyn-fyfyrwr o'r Brifysgol Agored ac yn gyn-athrawes, a Howard, cyn-drysorydd Y Brifysgol Agored ill dau ddiddordeb brwd mewn addysg a gwnaethant roi yn hael er mwyn cefnogi'r rhaglen fwrsari hon.

DYSGWCH FWY AM FWRSARIAU AR GYFER MYFYRWYR DUON, ASIAIDD NEU LEIAFRIFOEDD ETHNIG

open.ac.uk/courses/fees-and-funding/open-futures-bame

Cyflwyno'r Gronfa Dyfodol Agored

Rydym yn credu na ddylai ble rydych chi'n dechrau mewn bywyd gyfyngu ar ble y gallwch fynd. Fel aelod o deulu'r Brifysgol Agored, byddwch yn gwybod yn well na neb pan fydd gan rywun yr awydd i ddysgu a'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i lwyddo, gall breuddwydion amhosibl ddod yn wir.

Roedd ymgyrch pum mlynedd Agor y Dyfodol Y Brifysgol yn llwyddiant ysgubol, gan godi £60 miliwn, diolch i gefnogaeth anhygoel cyn-fyfyrwyr, ffrindiau a rhoddwyr. Mae cymaint o fywydau wedi cael eu newid yn y DU a thramor drwy'r rhodd o addysg, ein gwaith ymchwil blaenllaw a phenderfyniad teulu'r Brifysgol Agored i ddarparu gwaith dysgu sy'n newid bywydau i unrhyw un, unrhyw le.

Wrth i'r ymgyrch ddod i ben ac wrth i ni edrych yn ôl ar effaith eich cefnogaeth, un o'r meysydd rydym yn hynod falch ohono yw creu ein rhaglenni ysgoloriaethau. Mae'r cronfeydd hanfodol hyn yn rhoi cyfle i'r rhai na fyddent fel arall, o bosib, yn cael y cyfle i wireddu eu potensial. Rydym bellach yn falch o gyhoeddi'r **Gronfa Dyfodol Agored**, sy'n cwmpasu'r rhaglenni ysgoloriaethau cychwynnol hyn i gyn-filwyr anabl a gofalwyr.

Bydd y **Gronfa Dyfodol Agored** yn darparu ysgoloriaethau a bwrsariau sy'n golygu y bydd mwy o fyfyrwyr sydd o'r farn bod addysg allan o'u cyrraedd bellach yn cael y gefnogaeth i drawsnewid eu dyfodol. Mae'r Gronfa hon sy'n newid bywydau wir wrth wraidd cenhadaeth y Brifysgol Agored i wneud addysg yn hygyrch i bawb, ac mae ond yn bosibl diolch i'ch haelioni parhaus.

Gyda'ch gilydd, rydych yn ein helpu i oresgyn y rhwystrau i addysg, yn atal potensial rhag cael ei wastraffu ac yn sicrhau bod pawb – ni waeth beth yw eu cefndir – yn cael y cyfle i ddilyn eu huchelgeisiau.

Mae'r **Gronfa Dyfodol Agored** eisoes yn newid bywydau ac rydym yn awyddus iawn i ddangos i chi cymaint o wahaniaeth y bydd pob rhodd yn ei wneud yn y blynyddoedd i ddod.



CEFNOGI DYSGWYR YM MHOB MAN

Mae'r ffyrdd rydym i gyd yn byw ac yn dysgu wedi cael eu trawsnewid ers i'r cyfyngiadau symud ddiwydd – ac mae'r galw am ddulliau dysgu mwy hyblyg yn bwysicach nag erioed. Fel arloeswyr dysgu o bell ers dros 50 mlynedd, mae'r Brifysgol Agored yn falch o allu cefnogi teuluoedd, myfyrwyr ac addysgwyr gydag adnoddau i barhau i ddysgu gartref.

Rydym wedi gweld niferoedd uwch nag erioed o ymwelwyr yn dod i OpenLearn, ein llwyfan dysgu ar-lein am ddim, gyda 7 miliwn o ymwelwyr a dros 800,000 o gyrsiau yn cael eu cwblhau, ers i'r cyfyngiadau symud ddechrau.

Ar ôl i brifysgolion ac ysgolion gau'n sydyn, daeth ein hadnoddau am ddim i helpu addysgwyr a sefydliadau eraill yn hynod boblogaidd yn gyflym, gan eu galluogi i symud eu gwaith addysgu ar-lein ac addasu i ffyrdd newydd o ddysgu. Roedd rhieni a myfyrwyr yn gallu cael gafael ar bron i 1,000 o gyrsiau am ddim gan academyddion Y Brifysgol Agored i'w helpu i lywio'r byd newydd o addysgu gartref, gyda chynghor a chefnogaeth i fyfyrwyr a all fod yn dysgu ar-lein am y tro cyntaf.

Y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth gartref, mae gweithwyr ar ffyrlo a'r rhai sy'n hunanynysu yn parhau i gofrestru ar gyrsiau OpenLearn a FutureLearn er mwyn dysgu ieithoedd, meithrin sgiliau newydd ac archwilio pynciau diddorol.

Wrth i'r byd barhau i addasu i'r 'normal newydd', mae'r Brifysgol Agored yn ymrwymedig i gefnogi addysgwyr a dysgwyr o bob oed gyda'r adnoddau sydd eu hangen i gael gafael ar addysg ar-lein a'i darparu. Byddwn yn parhau i lansio cyrsiau newydd a rhannu'r cynnwys diweddaraf â chi, teulu'r Brifysgol Agored.



Mae'r Brifysgol Agored wedi ymuno â MoneySavingExpert i lunio'r cwrs newydd am ddim hwn i roi'r sgiliau a'r wybodaeth i chi i feistrolu eich cyllid.

Ewch i OpenLearn a chwiliwch am Academy of Money



Mae'r cwrs hwn yn archwilio adnoddau o brosiect Amser i Feddwl Y Brifysgol Agored. Mae *Amser i Feddwl* yn archif hanes llafar a chydweithio parhaus ar gyfer cyfnewid gwaith addysgu, ymchwil, effaith a gwybodaeth rhwng Y Brifysgol Agored a phobl a gymerodd ran yn yr archif *Amser i Feddwl*. Mae hyn yn cynnwys cyn-garcharorion Teyrngarol a Gweriniaethol, tiwtoriaid a staff swyddfa'r Brifysgol Agored a staff a llywodraethwyr carchardai.

Ewch i OpenLearn a chwiliwch am Time to Think



Darganfyddwch rywbeth newydd heddiw

www.open.edu/openlearn

DYFODOL DYSGU 2070

Y llynedd, i ddatlu hanner canmlwyddiant Y Brifysgol, gwnaethom rannu rhai o ragfynegiadau cyffrous ein hacademyddion ynghylch sut y gallai dysgu newid dros yr hanner can mlynedd nesaf. Yn ein hadroddiad Dyfodol Dysgu eglurodd ein harbenigwyr sut y gallai deallusrwydd artifisial ddod yn rhan o fywyd bob dydd i fyfyrwyr yn 2070 a sut y gallai dysgu sgiliau newydd yn y dyfodol ddod yn llawer cyflymach diolch i ddysgu ymennydd i ymennydd. Gwnaethom hefyd wahodd ein cymuned cyn-fyfyrwyr a chefnogwyr i ddweud eu dweud a rhagfynegi sut y bydd myfyrwyr Y Brifysgol Agored yn byw ac yn dysgu yn y dyfodol.

Diolch i bawb a anfonodd syniadau, cawsom gymaint o syniadau creadigol! Dyma un o'n ffefrynnau – cofiwch fynd ar-lein i ddarllen mwy o syniadau ysbrydoledig.

TIWTORIAID HOLOGRAFFIG A GWERSI AMLIEITHOG

Mae'r cyn-fyfyrwr Pamela Wheatley yn dychmygu sut y bydd technoleg yn chwalo hyd yn oed mwy o rwystrau

Hanner can mlynedd yn ôl, cyflwynwyd dysgu o bell er mwyn sicrhau bod addysg ar gael i bawb ni waeth beth oedd eu hamgylchiadau a'u gallu. Ers hynny mae'r byd wedi gweld datblygiadau enfawr mewn technoleg, sydd wedi galluogi pobl dros y byd i gael budd o'i ddatblygiadau.

Yn y dyfodol, caiff gwaith dysgu ei deilwra i ddiwallu anghenion pob unigolyn drwy ddefnyddio realiti rhithwir wedi'i raglennu ar gyfer pynciau penodol. Bydd hologramau o diwtoriaid yn gallu addysgu ac, yn achos pynciau gwyddonol, dangos arbrofion gan alluogi'r myfyrwr i ddeall a gwybod yn union beth sy'n ofynnol ganddo. Yna bydd yn gallu dangos ei ddealltwriaeth yn gorfforol drwy anfon ei hologram ei hun yn ôl i'r tiwtor. Mae rhyngweithio â thiwtoriaid a myfyrwyr eraill yn hanfodol wrth gwrs a chyflawnir hyn drwy gysylltu ar-lein yn rheolaidd.

Caiff gemau fideo, sy'n cael eu defnyddio er pleser ar hyn o bryd, eu defnyddio hefyd a byddant wedi'u cynllunio'n benodol fel bod myfyrwyr yn dysgu wrth chwarae gêm, gan ddefnyddio rhaglenni cywrair wedi'u cynllunio i addysgu myfyrwyr i'r lefel uchaf. Felly, bydd realiti rhithwir yn eu helpu i brofi dealltwriaeth lawn o'r darlithoedd hyn. Er mwyn gwneud yn siŵr bod gan fyfyrwyr mewn gwledydd eraill ledled y byd fynediad anghyfyngedig heb unrhyw rwystrau iaith, bydd cyfieithiadau ar y pryd o ddarlithoedd fel y bydd pawb yn cael y budd mwyaf posibl.

Bydd addysg yn y dyfodol yn rhywbeth byd-eang wedi'i gynllunio i roi'r gallu i bawb feddwl drostynt eu hunain ac felly gwella'r byd cyfan.



EDRYCHWCH AR SYNIADAU CREADIGOL GWYCH ERAILL A DARLLENWCH RAGFYNEGIADAU'R ACADEMYDDION
alumni.open.ac.uk



YMATEB I BANDEMIG Y CORONAFEIRWS

Gwnaeth arbenigedd Y Brifysgol Agored mewn dysgu ar-lein a methodolegau addysgu ganiatáu i ni aros ar agor yn ystod y cyfyngiadau symud a chefnogi ein myfyrwyr, teuluoedd, athrawon a sefydliadau academaidd eraill drwy gyfnod heriol. Yn ogystal â hyn, mae ein hacademyddion yn gweithio'n galed i ddatblygu atebion i'r materion mwyaf difrifol – o ateb galw lleol am hylif diheintio dwylo, i gefnogi'r gwaith o ddatblygu prawf diagnostig COVID-19 cyflym.

Parhau i gadw'n iach

Mae ein hacademyddion yn parhau i ennill arian grant ymchwil newydd a rhoi arweiniad ar iechyd a llesiant.

Mae ymchwilwyr yn y Gyfadran Lles, Addysg ac Astudiaethau Iaith, wedi rhoi arweiniad ar addysgu gartref, chwarae creadigol a buddiannau darllen a rennir, ar draws teuluoedd, ystafelloedd dosbarth a chymunedau.

Mae academyddion hefyd yn ymchwilio i weld a yw unigrwydd wedi cynyddu oherwydd y pandemig a pha mor barod ydym i fynd yn ôl i fywyd fel yr oedd unwaith mewn byd sydd wedi newid y tu hwnt i gydnabyddiaeth.



Symud tuag at adfer

Wrth i'r byd symud yn betrusgar tuag at adfer, mae academyddion Y Brifysgol Agored yn edrych ar effeithiau a chostau ariannol, corfforol ac emosiynol y pandemig.

Yn anffodus, bu cynnydd cyflym yn nifer y bobl mewn sefyllfaoedd cam-drin domestig yn ceisio help yn ystod cyfyngiadau symud y DU. Mewn ymateb i hyn, gwnaeth tîm Cyfiawnder Agored Y Brifysgol Agored gydweithio â'r elusen *Support Through Court* i lansio adnodd ar-lein agored am ddim i ddysgwyr, ar thema cam-drin domestig. Codwyd y gwaith hwn gan AS Gogledd Milton Keynes, Ben Everitt, yn ystod cwestiynau llafar i'r Ysgrifennydd Cyfiawnder Robert Buckland AS yn Nhŷ'r Cyffredin ddydd Mawrth 14 Gorffennaf. Cyfeiriwyd ato ynghyd â'r elusen yn Milton Keynes *MK Act* sy'n cynnig cymorth trais domestig.

Mae Cyfadran Busnes a'r Gyfraith Y Brifysgol Agored bellach yn ymchwilio i effeithiau'r pandemig ar fusnesau a'u hamser adfer a ragfynegir. Mae prosiect ymchwil, a ddechreuodd ym mis Gorffennaf, wedi'i arwain gan yr Athro Elizabeth Daniel, Athro Rheoli Gwybodaeth, a'i chyd-weithwyr wedi ennill grant Ymateb Brys COVID-19 o £178,000 gan Ymchwil ac Arloesedd y DU a'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, i ystyried effeithiau COVID-19 ar bobl hunangyflogedig yn y DU.

Adeiladu ar ein hanes o ddysgu ar-lein o ansawdd

Nid yw'n syndod mai un o'r prif feysydd galw gan athrawon a sefydliadau addysg ledled y byd oedd darpariaeth gwaith dysgu ar-lein i athrawon a rhieni, ac mae'n parhau i fod. Bu sôn dyddiol am alluoedd dysgu ar-lein Y Brifysgol Agored yn y cyfryngau darlledu a'r cyfryngau print ers i gyfyngiadau symud COVID-19 ddechrau ym mis Mawrth 2020, sydd wedi arwain at The Guardian yn cynnwys erthyglau rheolaidd am addysgu ar-lein.

Datblygiad cynnar yw The Skills Toolkit, llwyfan ar-lein newydd gan y llywodraeth i gefnogi gweithwyr ar ffyrlo, sy'n cynnwys cyrsiau am ddim gan OpenLearn a FutureLearn. Mae'r math hwn o gymorth wedi cael ei lansio ym mhob un o bedair gwlad Y Brifysgol Agored – Cymru, Lloegr, Iwerddon a'r Alban – ac mae'n arwain at waith ymgysylltu pellgyrhaeddol gan ddechrau sgysiau newydd o ran datblygu mwy o gyrsiau am ddim.



Newyddion diweddaraf: Diolch am gefnogi myfyrwyr yn ystod y pandemig

Diolch i haelioni parhaus ein cymuned cyn-fyfyrwyr, bydd myfyrwyr Y Brifysgol Agored mae'r pandemig wedi effeithio arnynt yn cael y cymorth sydd ei angen i barhau â'u gwaith dysgu sy'n newid bywydau.

Rydym wrth ein bodd gyda'r cymorth a'r diddordeb mae'r gronfa wedi'u cael ac mae £105,000 wedi cael ei godi, sy'n wych. Rydym mor ddiolchgar am y ffordd rydych wedi cefnogi myfyrwyr Y Brifysgol Agored yn ystod y cyfnod anodd hwn – mae'r ymdeimlad o gymuned a theyrngarwch i fyfyrwyr a grëir gan deulu'r Brifysgol Agored bob amser yn ysbrydoli.

Rydym yn gwerthfawrogi bod cymaint ohonom bellach yn wynebu heriau ac ansicrwydd na fyddem byth wedi'u rhagweld. Drwy ddod at ein gilydd fel teulu'r Brifysgol Agored, rydym yn sicrhau y gall ein Prifysgol barhau i fod yn agored i bawb, fel yr ydym wedi bod am fwy na hanner can mlynedd. Rydym yn obeithiol, er gwaetha'r sefyllfa bresennol a'r anawsterau ychwanegol y mae ein myfyrwyr yn delio â nhw, y byddant yn gallu cyflawni eu huchelgeisiau o hyd a chwblhau eu cymwysterau yn ôl y bwriad.




Ymchwil newydd i'n cadw'n ddiogel

Dros y chwe mis diwethaf, rydym wedi cael llif cyson o brosiectau ymchwil newydd wedi'u cynllunio i fynd i'r afael ag agweddau amrywiol o COVID-19 wrth i'r pandemig fynd drwy gyfnodau amrywiol.

Ym mis Mawrth 2020, enillodd Harith Alani, Athro Gwyddorau Gwe yn Athrofa Cyfryngau Gwybodaeth Y Brifysgol Agored, grant gan yr UE am €2.85 miliwn yn cynnwys 11 o bartneriaid gan gynnwys y Groes Goch i olrhain lledaeniad camwybodaeth am COVID-19 ar y cyfryngau cymdeithasol. Cafodd hyn sylw eang ar BBC Look East, BBC Three Counties Radio ac yn The Express a The Daily Mail.

Datblygodd tîm wedi'i arwain gan yr Athro John Domingue, sydd hefyd yn yr Athrofa Cyfryngau Gwybodaeth, y pasbort imiwnedd digidol COVID-19 cyntaf yn y byd ac mae wedi creu ap ffôn symudol prototeip sy'n galluogi i ganlyniadau profion coronafeirws gwrth-ymyrraeth a thystysgrifau brechu gael eu dilysu ar unwaith.



RHAGOR O WYBODAETH

www.open.ac.uk/courses/coronavirus

SUT MAE GORLIFDIROEDD YN GWNEUD GWAHANIAETH

Mae David Gowling, Athro Botaneg yn Y Brifysgol Agored, yn egluro pam mae gweirgloddiau gorlifdiroedd yn bwysig yn ogystal â bod yn brydferth.

Gweirgloddiau gorlifdiroedd yw'r mathau o leoedd rydych yn ymweld â nhw i fyfrio, hel atgofion a chael eich ysbrydoli. Maent yn blodeuo ym mis Ebrill, mis Mai a mis Mehefin ac maent yn llawn bywyd gwyllt a phlanhigion, gan greu caleidosgop o liw sy'n newid o hyd. Nid yn unig maent yn hardd, ond maent yn cefnogi dull mwy naturiol o amaethu. Yn llawn hanes, yn mynd yn ôl fil o flynyddoedd, gweirgloddiau gorlifdiroedd oedd asgwrn cefn yr economi wledig yn Lloegr ar un adeg ac felly maent yn llawn treftadaeth ddiwylliannol a chymdeithasol.

Cylch oes gweirglodd gorlifdir

Ar ddiwedd Mehefin neu ddechrau Gorffennaf, caiff gweirgloddiau gorlifdiroedd eu torri, tra eu bod ar eu gorau, sy'n ymddangos yn golled aruthrol. Fodd bynnag, cânt eu torri am reswm: i wneud gwair. Mae torri'r gwair yn hanfodol er mwyn cynnal amrywiaeth y gweirgloddiau. Mae'r gweirgloddiau yn adfer yn gyflym o'r toriad, yn debyg iawn i lawnt eich gardd. Maent yn cynhyrchu blodau eto, gan ymestyn y tymor i beillwyr hanfodol. Mae'r cynhaeaf yn darparu gwair i anifeiliaid ei fwyta dros y gaeaf, gan alluogi 'cig eidion wedi' fwydo â phorfa' i gael ei gynhyrchu. Mae gwartheg yn pori wrth i'r gweirgloddiau aildyfu ac yn nes ymlaen maent yn bwyta'r gwair sych drwy'r gaeaf. System fwyd llawer mwy cynaliadwy na bwydo grawn wedi'i fewnforio neu indrawn cartref i wartheg, sy'n cael eu cynhyrchu ar gost enfawr i'r amgylchedd.

Er hynny, mae'r gweirgloddiau hyn bellach yn brin iawn, wedi'u colli i'r ymgyrch fawr am effeithlonrwydd ar ôl y rhyfel. Maent wedi cael eu chwistrellu â chwynladdwyr wedi'u dethol i gynhyrchu porfa pur, eu draenio er mwyn eu trosi'n gaeau â'r neu eu cloddio ar gyfer y graean sy'n gorwedd oddi tanynt. Mae 70% o orlifdiroedd Lloegr bellach naill ai yn gaeau wedi'u troi neu'n laswelltir heb



unrhyw flodau, nad ydynt yn cynnig fawr ddim diddordeb i fywyd gwyllt ac yn niweidio'r amgylchedd lleol. Mae gorlifdiroedd haredig yn llygru'r afon â phridd wedi erydu ac agrocegegion (plaleiddiaid a gwrteithi).

Gwyddom bellach y gall y gweirgloddiau hyn gasglu niferoedd mawr o garbon yn eu pridd dwfn nad oes unrhyw un wedi tarfu arno. Maent yn dal gwaddodion llawn maetholion o'u hafonydd yn ystod llifogydd ac yn eu trosi yn gnwd gwair, sydd wedyn yn cael ei gymryd allan o'r gorlifdir. O ganlyniad, maent yn glanhau'r afonydd ac yn creu gofod i'r llifddwr i ehangu.

Ffordd fwy naturiol...

Mae gweirgloddiau gorlifdiroedd yn ateb hinsawdd perffaith, sy'n cynhyrchu cig cynaliadwy sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd. Maent yn system a fydd yn adfer ar ôl llifogydd ac maent yn wydn i sychder, yn enghraifft dda o gynhyrchu yn gweithio gyda natur ac yn rhoi rhywbeth yn ôl i natur, yn hytrach na brwydro yn ei erbyn. At hynny, mae gweirgloddiau gorlifdiroedd yn un o'r cynefinoedd mwyaf cyfoethog yn fotanegol yn y DU.

Wrth i ni geisio caniatáu i orlifdiroedd weithredu'n naturiol, nid yn unig yr afancod a'r coed a fydd yn gwneud y gwaith, ond mae gweirgloddiau yn chwarae rôl hefyd, yn hwylyso'r broses o ddychwelyd yn ysgafn i gynhyrchu bwyd o dirwedd sy'n trosglwyddo a chadw pobl mewn cysylltiad â'r tir.

Felly, mae angen i ni werthfawrogi ac adfer gorlifdiroedd i'w hen ogoniant, fel y gallwn symud tuag at system fwyd sy'n cyd-fynd â natur ac sy'n fwy caredig i'r blaned.

Y Brifysgol Agored yw cartref y Bartneriaeth Gweirgloddiau Gorlifdiroedd, sefydliad a arweinir gan academyddion Y Brifysgol Agored sy'n canolbwyntio ar gadw ac adfer amgylcheddau gweirglodd gwlyb bioamrywiol ledled y DU. Ers llawer o flynyddoedd mae gwaith y Bartneriaeth wedi cael ei gefnogi gan Sefydliad Esmée Fairbairn. Mae hyn wedi galluogi'r tim i gynnal arolygon ac ymweliadau â safleoedd gweirgloddiau ledled y wlad i gynnig cyngor i reolwyr a pherchnogion tir ar newidiadau i ffordd o reoli tir a fyddai'n gwella'r safleoedd neu'n cynnal bioamrywiaeth gweirgloddiau. Mae hefyd wedi galluogi i wybodaeth a enillir gan y Bartneriaeth gael ei rhannu â rhanddeiliaid mewn gweithdai a chynadleddau.

Mewn ymateb i'r pandemig mae Sefydliad Esmée Fairbairn wedi penderfynu cynyddu'r prosiectau maent yn eu cefnogi i sicrhau y gallant oroesi'r golled o ffynonellau cyllid eraill neu gost gynyddol gweithgarwch. Roedd Y Brifysgol Agored yn hynod ddiolchgar i gael grant cymorth ym mis Ebrill i helpu'r Bartneriaeth Gweirgloddiau Gorlifdiroedd i barhau i weithio i achub y gweirgloddiau sydd wedi cael eu degymu gan echdynnu tywod a graean, datblygiad trefol a diwydiannol a newidiadau hydroclorig i orlifdiroedd afon.

Cafodd y Bartneriaeth grant hefyd gan Ymddiriedolaeth Elusenol Bannister ym mis Mehefin i gefnogi'r gwaith parhaus. Rydym hefyd yn ddiolchgar am gefnogaeth barhaus Sefydliad John Ellerman, Ymddiriedolaeth William Dean a'n cyn-fyfyrwyr.



CANOLFAN
AGORED AR GYFER
IEITHOEDD A
DIWYLLIANNAU

Canolfan newydd ar gyfer ieithoedd a chyfathrebu rhyngddiwylliannol yn agor

Y Ganolfan Agored ar gyfer ieithoedd a Diwylliannau yw'r cartref newydd cyffrous ar gyfer cyrsiau iaith a chyfathrebu rhyngddiwylliannol byr nad ydynt wedi'u hachredu gan Y Brifysgol Agored. Caiff y fenter ei lansio gan yr Ysgol Ieithoedd ac Ieithyddiaeth Gymhwysol ym mis Hydref 2020 a'r nod yw galluogi myfyrwyr i astudio amrywiaeth eang o bynciau iaith ac sy'n gysylltiedig ag iaith unrhyw le yn y byd, mewn unrhyw barth amser, beth bynnag yw eu cymhelliant – hamdden, datblygiad proffesiynol neu academaidd.

Yn ei hanfod, dyma'r siop un stop ar gyfer ymgysylltu ag ieithoedd, cyfathrebu proffesiynol a deialog rhyngddiwylliannol.

Mae'r Ganolfan wedi'i chynllunio'n benodol i fod yn hyblyg ac ymatebol i anghenion y dysgwyr sydd am fod yn rhan o gymdeithas fyd-eang ac mae'n hynod bwysig yn sgil marchnad ieithoedd yn y DU sy'n parhau i leihau. Mae ei dull wedi'i gynllunio i gyrraedd niferoedd mawr o bobl ac adeiladu ar egwyddorion sefydliol Y Brifysgol Agored i hyrwyddo cydraddoldeb, cynhwysiant a chyfiawnder cymdeithasol.

Hwb adnoddau digidol newydd i athrawon AB



Mae'r Brifysgol Agored yn cyflwyno llwyfan adnoddau ar-lein newydd i gefnogi ymarferwyr addysg alwedigaethol. Bydd prosiect VocTech Essentials, sydd wedi'i ariannu gan Ymddiriedolaeth Ufi VocTech, yn galluogi addysgwyr i gael gafael ar adnoddau digidol yn hawdd i ddatblygu eu gwaith addysgu.

Gyda chyfyngiadau amser ar athrawon Addysg Bellach, a rhestr sy'n ymddangos yn ddiwedd o adnoddau addysgu digidol i ddewis ohonynt, bydd y prosiect hwn yn helpu addysgwyr i wneud dewisiadau hyddysg am yr adnoddau gorau i ddod â'u gwersi yn fyw. Byddant yn gallu gweld pa adnoddau sy'n cael eu defnyddio gan athrawon eraill, wedi'u cefnogi gan system cyfraddau a fydd yn eu galluogi i argymhell adnoddau i gyflawni deilliannau addysgu penodol.

Bydd y llwyfan hwn yn targedu darparwyr Addysg a hyfforddiant preifat a chyhoeddus, gan brofi a threialu'r dull ar gyfer Sgiliau Gweithredol mewn Mathemateg a Saesneg i ddechrau. Rydym yn rhagweld y caiff ei ehangu i feysydd pwnc poblogaidd newydd y flwyddyn nesaf. Dilynwch y prosiect ar Twitter @Voc_Teach



Bydd y Ganolfan Agored yn cynnig cyrsiau byr nad ydynt yn achrededig mewn amrywiaeth o bynciau gan gynnwys ieithoedd modern, ieithoedd ar gyfer busnes a'r gweithle, ac ieithoedd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. O 2021 bydd hefyd yn arwain y ffordd ar gyrsiau byr o ansawdd uchel ar gyfer dulliau ymchwil academaidd a Saesneg cyn sesiynol gyda System Profi Iaith Saesneg Rhyngwladol (IELTS).

Mae hyblygrwydd wrth wraidd y Ganolfan Agored, felly mae gan fyfyrwyr yr opsiwn hefyd i droi'r gwaith dysgu hwn yn waith dysgu achrededig drwy fodiwl Gwneud i'ch Dysgu Gyfrif unigryw Y Brifysgol Agored.



I gael rhagor o wybodaeth e-bostiwrch
oclc@open.ac.uk

Cefnogi myfyrwyr STEM ledled Affrica



Mae OPITO (y corff sgiliau byd-eang, nid er elw ar gyfer y diwydiant ynni) wedi cefnogi datblygu rhyngwladol gwaith Y Brifysgol Agored am nifer o flynyddoedd. Mae'r cymorth hwn wedi ein galluogi i wella deilliannau addysgol niferoedd sylweddol o bobl ifanc ledled y byd.

Ar hyn o bryd mae OPITO yn cefnogi'r Brifysgol Agored i wella addysg STEM (gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg) yn Affrica. Nod prosiect OpenSTEM Affrica (OSA) yw mynd i'r afael â'r bwlch sgiliau yn Affrica drwy ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o gyflogion y diwydiant STEM, yn enwedig menywod ifanc a merched. Bydd yn annog disgyblion i ymgysylltu â dosbarthiadau STEM drwy gynnig hyfforddiant ychwanegol i athrawon a labordai rhithwir i'w defnyddio mewn gwersi – sy'n hanfodol pan nad oes gan lawer o ysgolion gyfarpar ffisegol. Bydd y labordai rhithwir yn seiliedig ar labordai OpenSTEM presennol Y Brifysgol Agored sy'n cynnig cyfle i fyfyrwyr gwblhau arbrofion a defnyddio cyfarpar heb fynd i labordy mewn gwirionedd.

CEFNOGI ADDYSG MERCHED YN AFFRICA IS-LAW'R SAHARA


Mae rhaglenni datblygu rhyngwladol Y Brifysgol Agored wedi bod yn darparu atebion y gellir eu haddasu i heriau byd-eang am fwy na 20 mlynedd. Yn Affrica Is-law'r Sahara, mae'r heriau hyn nid yn unig yn canolbwyntio ar fynediad i addysg o ansawdd, ond sicrhau bod plant yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu cefnogi a'u cynnwys i ddysgu gan athrawon sydd wedi'u hyfforddi'n dda.

Y Brifysgol Agored yw'r arweinydd academaidd mewn tair rhaglen Her Addysg Merched a riennir gan gymorth y DU ledled Affrica sy'n hyrwyddo hawliau addysgol merched. Ynghyd â'n partneriaid, rydym yn annog newid mewn agweddau ac ymddygiadau gan athrawon, arweinwyr ysgolion, pobl hyn mewn cymunedau, gwarcheidwaid ac aelodau teuluoedd lle mae normau cymdeithasol a thraddodiadau diwyllianol yn aml yn eithrio, yn cyfyngu ar ferched neu'n eu hymyleiddio o addysg ffurfiol, er mwyn cefnogi mwy o ferched i ddysgu. Mae ein hateb yn hyrwyddo ymgysylltu ysgol gyfan ac ymgysylltu cymunedol, fel y gellir nodi rhwystrau a wynebir gan ddysgwyr yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol, mynd i'r afael â nhw a'u goresgyn er mwyn annog uchelgais a dyhead ymhlith merched ifanc drwy ddysgu. Ein cenhadaeth yw cymhwyso a grymuso athrawon ac addysgwyr cymunedol i addysgu merched, a thorri'r cylch o gyrhaeddiad addysgol isel ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Yn Zimbabwe, mae gweithgarwch Y Brifysgol Agored yn cwmpasu 20 o ardaloedd ac un o'r rhaglenni gweithgarwch yw IGATE, Gwella Agweddau, Trosglwyddo a Deilliannau Addysg Rhywedd. Drwy gonsortiw wedi'i arwain gan World Vision, mae IGATE yn cefnogi datblygiad sgiliau llythrennedd a rhifedd sylfaenol plant i hybu eu hyder a'u hunanhyder. Gyda'n gilydd, rydym yn gwella cyfleoedd bywyd dros 73,000 o ferched wedi'u hymyleiddio, gan eu helpu i drosglwyddo o'r ysgol gynradd i opsiynau ôl-gynradd megis ysgol uwchradd neu ddysgu yn y gymuned.

Dechreuodd gweithgarwch y prosiect yn 2017, gyda'r Brifysgol Agored yn arwain rhaglen datblygu ysgolion IGATE mewn 266 o ysgolion cynradd a 53 o ysgolion uwchradd, gan lunio adnoddau modiwlaid sy'n berthnasol yn lleol er mwyn datblygu'r cwricwlwm cenedlaethol gyda gweithgareddau dysgu hwyliog, sy'n ennyn diddordeb er mwyn i athrawon roi cynnig arnynt yn eu hystafelloedd dosbarth i wella lefelau rhyngweithio a dealltwriaeth gan eu disgyblion.

Drwy weithio gyda Swyddogion Addysg Ardal, Arweinwyr Ysgolion ac Arweinwyr Datblygu Athrawon, rydym wedi annog ethos o waith tîm ac undod fel y gall athrawon ddysgu oddi wrth ei gilydd, gan rannu adnoddau a fideos arfer gorau i gefnogi a gwella eu hymarfer ystafell dosbarth. Un o'r newidiadau mwyaf sylweddol a nodwyd gan ferched mewn ysgolion uwchradd IGATE yw'r newid yn ymarweddaiad eu hathrawon. O ganlyniad, maent yn teimlo eu bod yn cael eu hannog yn fwy i ddysgu a chymryd rhan yn eu haddysg yn hytrach na bod ar yr ymylon. Wrth i ni gasglu astudiaethau achos a monitro cynnydd, mae'n glir bod IGATE yn gwella ymarfer cynhwysol ac addysgu llythrennedd a rhifedd yn Zimbabwe, gan alluogi ysgolion i fod yn amgylcheddau diogel a chefnogol sy'n gwella gwaith dysgu merched yn y cyd-destunau gwahanol maent yn eu hwynebu.



Miss Sibanda, athrawes sy'n cael ei chefnogi gan IGATE, Ysgol Gynradd Tshanke, Zimbabwe

IGATE ar waith

Ar ddechrau mis Mawrth, ymwelodd tîm prosiect IGATE ag un o'r ysgolion a gefnogir gan IGATE, sef Ysgol Gynradd Tshanke, yn ardal wledig Nkayi yn Zimbabwe. Mae'r ysgol yn rhedeg rhaglen fwyd i sicrhau bod y plant yn cael maeth, yn tyfu indrawn, mangos, afocados a gwafas yn eu gardd fach y tu ôl i'r ystafelloedd dosbarth. Gan eu bod filltiroedd o'r farchnad agosaf, mae'r ysgol yn aml yn darparu'r un pryd y dydd y bydd plentyn yn ei gael.

Mae gan yr ysgol wyth athro a dros 440 o blant i ofalu amdanynt. Wrth ymweld, eisteddodd tîm Y Brifysgol Agored i mewn yn nosbarth Miss Sibanda lle roedd yn addysgu dros 80 o blant rhwng chwech ac wyth oed. Gan ddefnyddio gwaith dysgu modiwl IGATE, dysgodd y dosbarth am faeth wrth ddatblygu eu sgiliau llythrennedd.

Wrth sôn am ei phrofiad IGATE hyd yma, nododd Miss Sibanda sut mae ei myfyrwyr yn ymgysylltu â'u gwersi yn llawer mwy ac yn ymddangos yn fwy hyderus ac awyddus i gymryd rhan. Mae'n defnyddio adnoddau diagnostig IGATE i gofnodi cynnydd eu myfyrwyr mewn meysydd gwahanol, sy'n llywio eu gwaith cynllunio gwersi ac yn helpu i sicrhau bod pob plentyn yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi ac nad yw'n cael ei adael ar ôl yn ei waith dysgu.

Mae Miss Sibanda ac athrawon eraill yn yr ysgol hefyd yn cymryd rhan mewn sesiynau datblygu proffesiynol i ganolbwyntio ar unedau modiwl IGATE a thrafod ffyrdd lle y gellid dod â'r cwricwlwm yn fyw gan ddefnyddio'r adnoddau hyn.

Diolchodd i'r Brifysgol Agored, World Vision a phartneriaeth IGATE am helpu ei hysgol a chymaint o bobl eraill yn Zimbabwe i gefnogi dysgwyr i wireddu eu potensial, gan nodi cymaint yn fwy mae'n mwynhau addysgu nawr diolch i gefnogaeth prosiect IGATE.

Ymateb i COVID-19

Yn fuan ar ôl i dîm academaidd IGATE dychwelyd i'r DU, caeodd Llywodraeth Zimbabwe (fel cymaint o lywodraethau eraill ledled y byd) ysgolion yn y gobaith o gynnal pandemig y coronafeirws.

Mae consortiwm partneriaid IGATE – Y Brifysgol Agored, World Vision, CARE International, SNV Zimbabwe, Emtonjeni ac Udaciza – wedi parhau i gydweithio'n agos i gefnogi athrawon a phlant drwy'r cyfnod hwn o ansicrwydd er mwyn lliniaru tarfu sylweddol ar ddysgu. Er bod nifer o adnoddau ar gael ar-lein i rieni eu defnyddio i addysgu wrth i'r DU drosglwyddo i addysgu gartref, i gymaint o bobl eraill ledled y byd, gan gynnwys Zimbabwe, mae cysylltedd yn gyfyngedig iawn ac yn ddrud (lle mae'r dechnoleg ar gael), ac mae'n anymarferol cymryd yn ganiataol y bydd rhyngweithiadau o bell/ar-lein yn llwyddiannus o ran cyrraedd dysgwyr yn eu cartrefi.

Mae IGATE wedi ymateb gyda ffyrdd amgen, hygyrch o ddarparu ein cyfleoedd dysgu o ansawdd uchel, wedi'u cefnogi, yn agored ac o bell, gan gynnwys rhannu gweithgareddau dysgu dyddiol drwy WhatsApp ar draws rhwydwaith o wirfoddolwyr cymunedol (gan gynnwys athrawon, aelodau o'r Pwyllgor Datblygu Ysgolion, Addysgwyr Cymunedol, Hyrwyddwyr Addysg Merched) i'w defnyddio gyda phobl ifanc yn eu cymunedau. Yn nodweddiadol, mae gwirfoddolwyr yn casglu grwpiau o 2-4 person ifanc at ei gilydd, gan gadw pellter cymdeithasol, i gwblhau ymarfer llythrennedd neu rifedd rhyngweithiol am 20-30 munud bob dydd. Mae lefel yr ymgysylltu ac ymateb gan ddysgwyr wedi bod yn ysbrydoledig.



www.open.ac.uk/ido



Miss Sibanda gyda'i dosbarth Ysgol Gynradd Tshanke, Zimbabwe

PLANNU HEDYN SY'N NEWID BYWYDAU AR GYFER Y DYFODOL

Mae bob amser yn hyfryd clywed gan gyn-fyfyrwyr am y ffordd mae astudio gyda'r Brifysgol Agored wedi helpu i newid eu bywydau. Gan fod teulu cyn-fyfyrwyr Y Brifysgol Agored wedi'i ledaenu dros y byd, mae hefyd yn galonogol gwybod yn union faint o bobl eraill sydd wedi cael eu helpu, eu hannog neu eu hysbrydoli gan ein cyn-fyfyrwyr mewn cymaint o ffyrdd gwahanol.

Creu tonnau o newid cadarnhaol

Wrth wraidd ein cenhadaeth mae parhau i fod yn agored i bawb, gan alluogi'r Brifysgol Agored i helpu i drawsnewid bywydau pobl dan anfantais na fyddent fel arall o bosib yn cael cyfle i gael unrhyw addysg bellach – pobl fel Taryn yn yr erthygl hon.

Rydym o'r farn na ddylai neb gael eu gadael ar ôl, heddiw nac yn y dyfodol.

Gwneud gwahaniaeth

Un o'r ffyrdd pwysicaf rydym yn helpu i ariannu ein hysgoloriaethau a rhaglenni eraill yw drwy incwm a geir o roddion y mae ein cymunedau yn eu gadael yn hael yn eu Hewyllysiau.

Mae llawer o gyn-fyfyrwyr a chefnogwyr yn gwybod drwy adael rhodd i'r Brifysgol Agored yn eu Hewyllys, eu bod yn plannu hedyn arbennig i ddwyn ffrwyth yn y dyfodol. Bydd yn ein helpu ni i barhau i drawsnewid mwy o fywydau am genedlaethau i ddod a rhoi'r cyfle i fyfyrwyr yn y dyfodol wireddu eu breuddwydion a'u potensial. Heddiw, mae rhoddion rydym wedi'u derbyn mewn Ewyllysiau yn ein helpu ni i gadw at ein cenhadaeth o fod yn agored i unrhyw un, unrhyw le sydd â'r awydd i ddysgu.


Mae haelioni teulu'r Brifysgol Agored wir yn anhygoel. Diolch i bob un ohonoch sydd eisoes wedi ymrwmo i gefnogi myfyrwyr Y Brifysgol Agored yn y dyfodol, gan eu galluogi i ddilyn yn ôl eich troed, drwy adael rhodd yn eich Ewyllys.

Os hoffech ystyried cefnogi cenedlaethau'r dyfodol drwy adael rhodd yn eich Ewyllys, cysylltwch â ni a gallwn roi mwy o wybodaeth ac ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych.



E-bostiwch ein Tîm Cymynrodd yn giving@open.ac.uk neu ffoniwch 01908 659141.

Bydd unrhyw gyfathrebu rhyngom yn cael ei drin yn gwbl gyfrinachol.



Caiff caredigrwydd a haelioni y rhai sydd wedi cofio'r Brifysgol Agored yn eu Hewyllys eu hanrhydeddu gyda'u henwau wedi'u harysgrifio ar blaciau arbennig wedi'u harddangos yn ein gardd waddol brydferth.



Gwnaeth Taryn ddianc o gydberthynas dreisgar drwy symud i mewn i loches. Yn nes ymlaen, wrth weithio mewn ysgol breswyl i blant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, cofrestrodd â'r Brifysgol Agored i astudio ar gyfer gradd BSc mewn Seicoleg a dod yn seicolegydd addysgol.

"Mae fy mywyd wedi newid yn llwyr. Mae gen i yrfa bellach sy'n fy ngalluogi i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i blant a theuluoedd. Diolch i'r Brifysgol Agored!"

Taryn



A society grows great when we plant trees in whose shade we shall never sit.

Yn seiliedig ar ddihareb Roegaid



DATHLU EIN NYRSYS

Mae nyrsys yn chwarae rôl hynod bwysig wrth ddarparu gofal iechyd ledled y GIG ac mewn sefydliadau preifat, gwirfoddol ac annibynnol. Mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi enwi 2020 yn Flwyddyn y Nyrs a'r Fydwraig. Roedd nyrsys a staff rheng flaen eraill yn destun canmoliaeth gan y llywodraeth a'r cyhoedd gan glapio i ofalwyr bob wythnos, cael oriau siopa penodol a diolchgarwch a rennir am eu gwaith yn achub bywydau yn ystod y pandemig.

Eleni, rydym yn dathlu 18 mlynedd o astudiaethau nyrsio yn Y Brifysgol Agored. Rydym yn falch o barhau i hyfforddi'r genhedlaeth nesaf o weithwyr gofal iechyd proffesiynol hynod fedrus – gyda dros 1,600 o ddysgwyr yn astudio gyda ni ar hyn o bryd i gyflawni eu huchelgais o fod yn nyrs.

Gan weithio mewn partneriaeth â mwy na 180 o gyflogwyr i ddarparu ein rhaglenni Nyrs Gofrestredig a Chydymaith Nyrsio, mae dull Y Brifysgol Agored yn galluogi sefydliadau gofal iechyd i ddatblygu eu nyrsys eu hunain o'u gweithlu cymorth gofal iechyd presennol, neu recriwtio talent newydd drwy'r llwybr prentisiaeth yn Lloegr. I ddarpar-nyrsys, mae ein rhaglenni hyblyg yn eu galluogi i ffitio'r elfennau damcaniaeth dysgu o bell o gwmpas eu hymrwymadau gwaith a'u hymrwymadau personol, tra bod y dysgu sy'n seiliedig ar ymarfer yn digwydd o dan oruchwyliaeth yn eu gweithle ac ar leoliadau.



“ Dros y 18 mlynedd diwethaf, mae'r Brifysgol Agored wedi bod yn falch o gyflwyno hyfforddiant i filoedd o nyrsys. Yr hydref hwn, bydd ein cwricwlwm Nyrs y Dyfodol newydd sbon yn cefnogi'r genhedlaeth nesaf o nyrsys gydag addysg ym mhob un o'r pedwar maes nyrsio: Oedolion, Plant a Phobl Ifanc, Anableddau Dysgu a Nyrsio Iechyd Meddwl. **”**

Fary Cachelin, Deon Gweithredol, Y Gyfadrann Lles, Addysg ac Astudiaethau Iaith



Dysgwch fwy

www.open.ac.uk/nursing

GWELLA YMARFER PROFFESIYNOL

Mae ein Tystysgrif Ôl-raddedig mewn Rhagnodi Anfeddygol a gradd MSc mewn Ymarfer Clinigol Uwch yn galluogi nyrsys a gweithwyr gofal iechyd cofrestredig proffesiynol eraill i ddatblygu eu hymarfer ymhellach.

Mae'r rhaglenni hyn yn paratoi Nyrsys Cofrestredig ar gyfer cyfrifoldebau rhagnodi ac ymgymryd â rolau uwch yn eu cwmpas ymarfer, gan gynnig datblygiad gyrfa ac i gyflogwyr i fanteisio ar amrywiaeth lawn o brofiad a sgiliau eu cyflogeion.

Lisa Blake
Nyrs dan Hyfforddiant



SYLW AR NYRSYS DAN HYFFORDDIANT

Mae Lisa Blake yn ei thrydedd blwyddyn o astudio ar gyfer gradd BSc (Anrh) Nyrsio Oedolion. Mae'n un o'r miloedd o nyrsys dan hyfforddiant yn Y Brifysgol Agored ac mae'n rhannu ei hwythnos rhwng bod yn nyrs dan hyfforddiant ar leoliad a bod yn Ymarferydd Cynorthwyol yng Nghanolfan Iechyd South Wigston yng Nghaerlŷr.

“ Rwyf erioed wedi teimlo mor falch o fod yn rhan o broffesiwn sy'n credu yn ei gilydd ac yn yr hyn rydym yn ei wneud, bob amser yn ceisio gwneud ein gorau yn y cyfnodau digynsail hyn. Mae'n anrhydedd bod yn rhan o fywydau cleifion.

”

Mae Fiona Dobson yn Diwtor Staff Nyrsio yn Y Brifysgol Agored ac mae'n helpu i gefnogi myfyrwyr fel Lisa wrth iddynt gydbwyso eu gwaith dysgu o bell a'u gwaith dysgu ymarferol. Dywedodd: “Mewn llawer o ffyrdd mae tebygrwydd rhwng ein rhaglenni a'r rhaglenni traddodiadol. Y gwahaniaeth allweddol yw bod y ddamcaniaeth yn cael ei haddysgu drwy waith dysgu cyfunol ac o bellter.”

Mae dull dysgu seiliedig ar ymarfer unigryw Y Brifysgol Agored yn golygu y gall myfyrwyr aros yn y gwaith tra'n astudio a bod cyflogwyr yn gallu meithrin eu gweithlu eu hunain. Dywedodd Susan Holmes, goruchwylydd ymarfer Lisa: “Mae'r Brifysgol Agored wedi bod yn gefnogol iawn. Gwnaeth y staff ymweld â ni ar ddechrau'r broses hon a gwnaethant ddweud wrthym yn union beth oedd yn ddisgwyliedig ohonom a beth y byddem yn ei ennill fel ymarfer. Bydd yn bendant o fudd i ni gan y byddwn yn cyflogi rhywun rydym eisoes yn ei adnabod ac sy'n ein hadnabod ni.”

CYSYLLTWCH Â NI

Hoffem glywed gennych



RHOWCH RODD I'R GRONFA DYFODOL AGORED

Ewch i alumni.open.ac.uk
Ffoniwch 01908 655 044



/theopenuniversity



@theopenuniversity



@OpenUniversity



The Open University



YMHOLIADAU CYFFREDINOL

E-bostiwch giving@open.ac.uk
Ffoniwch 01908 655 044

Ysgrifennwch

The Open University
Development Office
Walton Hall
Milton Keynes
MK7 6AA

Mae'r Brifysgol Agored wedi'i chorffori drwy Siarter Frenhinol (RC 000391), yn elusen eithriadig yng Nghymru a Lloegr ac yn elusen gofrestrdedig yn yr Alban (SC 038302). Mae'r Brifysgol Agored wedi'i hawdurdodi a'i rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol. Mae ein polisi preifatwydd yn giving.open.ac.uk/donor-care yn nodi sut mae'r Swyddfa Datblygu yn cael gafael ar eich data ac yn eu rheoli, eu defnyddio a'u diogelu.